Beibl i bawb

(gweld cyfle / cyfeillgarwch / gweledigaeth)

Ydych chi wedi bod yn aros mewn gwesty erioed? Ydych chi'n cofio beth oedd yn eich ystafell? Gwely, cadair neu ddwy, desg, cwpwrdd dillad, set deledu. Wnaethoch chi sylwi beth oedd yn un o'r droriau? Oedd yna Feibl yno? Os oedd, mae'n bur debyg ei fod wedi cael ei adael gan y Gideoniaid.

Ym mis Medi 1898, cyrhaeddodd John Nicholson westy'r Central House yn Boscobel, Winsconsin, yn ôl ei arfer. Ond croeso digon oeraidd a gafodd y diwrnod hwnnw.

"Mae'n wir ddrwg gen i," meddai'r gwesteiwr yn ddigon swta, "ond does yna ddim un stafell sengl ar gael i chi. Mae pob un ohonyn nhw'n llawn. Mae hi'n brysur iawn yma yr wythnos hon gan fod cynhadledd yma i'r torwyr coed."

Arhosodd y gwesteiwr i feddwl am dipyn.

"Yr unig beth fedra i gynnig i chi ydi rhannu ystafell efo trafeiliwr arall. Mae Samuel Hill yn ystafell 19 ac mae yna wely sbâr yn y stafell honno."

Cytunodd John ar un amod, sef y byddai Samuel Hill yn barod i'w dderbyn.

Aeth y gwesteiwr i fyny i holi Samuel. Roedd yn fwy na pharod i'w helpu.

Ar ôl ysgwyd llaw a chael paned o de dechreuodd y ddau drafeiliwr siarad am hyn a'r llall. "Na, fydda i ddim yn teithio ar y Sul," meddai Samuel. "A dweud y gwir, mae'r Sul yn ddiwrnod prysur iawn i mi. Rwyf yn chwarae'r organ yn y capel yn y bore ac yn helpu'r gweinidog yn oedfa'r hwyr." "Wel dyna ryfedd," meddai John, "mi rydw innau'n brysur iawn ar y Sul hefyd. Rwyf yn athro yn yr ysgol Sul ac yn cymryd rhan yn oedfaon y Sul."

Tynnodd John ei Feibl allan o'i fag a dechrau darllen rhannau o'r Testament Newydd. Ar ôl iddo ddarllen, dechreuodd Samuel weddïo. Cyn iddyn nhw fynd i gysgu'r noson honno dechreuodd y ddau drafod y syniad o greu cymdeithas i'r trafaelwyr oedd yn crwydro ar hyd a lled y wlad ac yn aros mewn tai a gwestai.

Aeth misoedd heibio heb i ddim ddigwydd. Yna, ar 1 Orffennaf, 1899, dyma'r ddau drafeiliwr yn cyfarfod ag un arall, William Knights, a dyma oedd cychwyn y Gideoniaid. Daw'r enw

o'r Hen Destament, o lyfr y Barnwyr, sy'n sôn am ddyn o'r enw Gideon oedd yn barod i wneud rhywbeth dros Dduw.

Ar y cychwyn, cyflwynid Beibl i bob gwesty gyda'r bwriad o'i adael ar y ddesg yng nghyntedd y gwesty. Ond ym 1907 penderfynwyd rhoi Beibl ymhob ystafell ymhob gwesty. Ymhen ugain mlynedd roedd y mudiad wedi rhannu dros filiwn o Feiblau ar hyd ac ar led yr Unol Daleithiau.

Yn ôl y ffigurau diweddaraf mae'r Gideoniaid wedi rhannu dros 870 miliwn o Feiblau. Bellach, mae gan y mudiad dros 140,000 o aelodau, y mwyafrif ohonyn nhw'n wirfoddolwyr ac maen nhw'n gweithio mewn 172 o wledydd y byd. Erbyn hyn mae'r Gideoniaid yn rhannu Beiblau, nid yn unig mewn gwestai ond hefyd mewn ysbytai, carchardai, ysgolion, prifysgolion a cholegau a hefyd mewn canolfannau militaraidd. Mae'r mudiad wedi lledaenu tu hwnt i bob disgwyliad o'r cyfarfyddiad syml hwnnw mewn ystafell ddwbl yng ngwesty Central House.

Adnod: Dywedodd Gideon wrthynt, "Nid myfi na'm mab fydd yn llywodraethu arnoch; yr Arglwydd fydd yn llywodraethu arnoch." Barnwyr 8:23

Gweddi: Diolch i ti, O Dduw, am ddefnyddio pobl gyffredin i wneud dy waith yn y byd. Amen.

Trafod:

- Ydych chi'n meddwl ei fod yn syniad da i ddosbarthu Beiblau mewn gwahanol sefydliadau?
- Chwiliwch am fwy o hanes y Gideoniaid.